Cwestiynau Aml Tirgwynt

Yma rydyn ni'n ateb rhai o gwestiynau posibl sydd gennych ynghylch y fferm wynt. Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill nad ydyn ni'n sôn amdanynt yma, mae croeso cynnes i chi gysylltu â ni yn uniongyrchol.

Pa mor aml a phryd fydd y confois yn mynd heibio?

Bydd un confoi y diwrnod, hyd at 6 diwrnod yr wythnos, a disgwylir y bydd y rhain yn teithio drwy'r Trallwng rhwng 12 hanner dydd a 2 y pnawn. Os bydd yr heddlu a'r cludwyr yn teimlo ei bod yn ddiogel gwneud hynny, efallai y byddwn yn ychwanegu ail gonfoi i deithio drwy'r Trallwng ar ôl 7pm yn ystod oriau golau dydd. Edrychwch ar y wefan i gael gwybod y diweddaraf a chael gwybodaeth am unrhyw newidiadau i'r amserlen.

Faint o oedi fydd y confois yn ei achosi i'r traffig?

Rydym wedi buddsoddi i wella ac uwchraddio llawer o ffyrdd lleol er mwyn cael rhagor o fannau pasio. Mae'n debygol mai ychydig iawn o oedi y bydd y confoi yn ei achosi, os unrhyw oedi o gwbl.

Pa gyfyngiadau parcio fydd yn cael eu gosod yn y Trallwng?

Ar hyn o bryd nid oes angen cyfyngiadau parcio ychwanegol; fodd bynnag, os bydd unrhyw gerbydau wedi parcio'n anghyfreithlon ac yn rhwystro'r briffordd ar linellau melyn dwbl, neu wedi parcio'n ddwbl, yna mae'n bosibl y bydd yr heddlu yn eu symud cyn i'r confoi basio drwy'r dref.

Beth sy'n digwydd os bydd cerbyd argyfwng megis injan dân neu ambiwlans angen mynd heibio?

Bydd y confoi yn cael ei hebrwng gan yr heddlu a bydd y rheiny yn delio â sefyllfaoedd fel hyn gan fod ganddynt bwerau i reoli traffig. Byddant mewn cyswllt radio â'r gwasanaethau brys a byddant yn gwneud yn siŵr fod cerbydau brys yn cael blaenoriaeth.

Pam nad ydych yn gallu dod â'r confois drwodd yn ystod y nos?

Mater yn ymwneud â diogelwch yw hyn i'r cludwyr ac i'r heddlu. Mae'r heddlu wedi ein cynghori, yn enwedig er diogelwch y tîm beiciau modur sy'n hebrwng, mai dim ond yn ystod oriau golau dydd y gall y teithiau cludo ddigwydd.

Sut byddwch chi'n sicrhau diogelwch defnyddwyr eraill y ffordd wrth i'r confoi fynd heibio?

Diogelwch yw ein prif bryder, ac mae Awel Newydd Cyf yn gweithio gyda'n contractwyr, yr awdurdodau priffyrdd perthnasol, yr Heddlu a'r gymuned i sicrhau

hyn. Bydd defnyddio'r heddlu i hebrwng yn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac rydym yn cynnal ymarferiad a thaith brawf o flaen llaw er mwyn nodi unrhyw broblemau posibl. Bydd gan swyddogion hebrwng yr heddlu y pwerau i reoli'r traffig i sicrhau bod y confoi yn mynd heibio heb beryglu defnyddwyr eraill y ffordd.

Pam ydych wedi dewis y llwybr hwn i gludo'r tyrbinau?

Penderfynwyd ar y llwybrau cludo ar hyd y rhwydwaith priffyrdd mwy o faint, yn ogystal â chyfyngiadau ar gludo'r cydrannau tyrbinau, gan y Cynllun Strategol Rheoli Traffig (STMP) ar gyfer canolbarth Cymru y cytunwyd arno ym mis Awst 2012 mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, y datblygwyr ar y pryd a RenewableUK Cymru.

Ar ôl i'r gwaith adeiladu orffen, faint o gerbydau fydd yn mynd a dod o'r fferm wynt?

Ychydig iawn. Cerbydau arferol eu maint fyddai'r rhain, yn gysylltiedig â chynnal a chadw'r fferm wynt. Petai achos annhebygol yn codi o broblem peirianneg yn golygu bod rhaid cludo cydran newydd, byddem yn cynnal yr un mesurau diogelwch ac yn sicrhau bod y gymuned yn cael ei hysbysu ymlaen llaw.

Beth fydd yn digwydd os bydd oedi yn y traffig mewn rhannau eraill o'r daith yn golygu nad yw'r confois yn gallu cadw at yr amserlen?

Os bydd oedi mawr y tu hwnt i'r amser targed neu ganslo taith, byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan ac yn rhoi gwybod i'r cynghorau tref a chymuned perthnasol.

Sut gallaf gael gwybod pryd fydd y confois yn mynd heibio fy ardal i?

Ewch i weld y dudalen hon ar y wefan, sy'n dangos y llwybr llawn a'r amseroedd disgwyliedig y byddant yn teithio drwy'r prif ardaloedd. Bydd hysbysiadau ychwanegol yn cael eu rhoi mewn papurau lleol ac ar hysbysfyrddau ar hyd y llwybr rhwng Pant a'r fferm wynt.

Pam nad ydych yn gallu defnyddio hofrennydd i gludo'r darnau?

Darn hiraf y tyrbin yw'r llafn sydd yn 45m o hyd, a'r darn trymaf yw'r nasél sy'n pwyso hyd at 70 tunnell; nid yw'n dechnegol bosibl am resymau aerodynameg i ddefnyddio hofrennydd i gludo i'r safle hwn.

Sut ydych chi'n gwybod bod strwythurau'r ffordd yn ddigon cryf i'r cerbydau fydd yn cludo'r tyrbinau?

Mae ein peirianwyr strwythurol wedi cynnal nifer o asesiadau a chyfrifiadau ar hyd y llwybr ac mae Cyngor Sir Powys a'r Asiantaeth Cefnffyrdd hwythau wedi ystyried yr holl strwythurau. Os oes unrhyw leoliadau sydd angen eu cryfhau ymhellach neu angen mesurau lliniaru eraill, byddwn yn gwneud y gwaith hwn ac yn talu amdano

ein hunain. Rydyn ni eisoes wedi gwneud gwaith i ledu'r ffordd mewn mannau allweddol ar hyd y llwybr a bydd y gwaith hwn yn un parhaol.

Pa mor gyflym mae'r cerbydau cludo'r tyrbinau yn teithio?

Mae'r cerbydau cludo yn gallu teithio ar derfynau cyflymder cenedlaethol y ffyrdd i gerbydau o'u maint, er y byddant o bosibl yn arafach wrth ddod at gyffyrdd (junctions), a bydd eu cyflymder wedi'i reoli gan dîm hebrwng yr heddlu.